

Diolch i Glyn am y cyfle i gyfrannu at y drafodaeth! Nodaf wrth ddechrau nad oes gennyf unrhyw arbenigedd fel sail i'm sylwadau, ar wahan i fy mhrofiadau fel aelod o Eglwys Pendref yn Rhuthun, a'm magwriaeth gynt yn Mhant-teg, Ystalyfera.

Yn syml iawn, rwyn optimydd! Credaf mai rhesymegol yw ceisio rhagweld y dyfodol, er mwyn gallu cynllunio ar ei gyfer. Ond wedi gwneud hyn, ffolineb yw poeni'n ormodol. Mewn brawddeg: mae ffordd y dyfodol hir-dymor parthed ein ffydd yn gliriach i mi na manylion y llwybr yn 2022.

Yn y tymor byr, ymddengys deng mlynedd yn amser hir, yn enwedig yn y byd sydd ohoni. Newidia patrymau cymdeithasol yn barhaus, mewn llif gynyddol o alwadau ar amser dyn. Yng Nghymru, mae ffyddloniaid y capel a'u gweinidogion yn mynd yn hŷn a llai niferus. Gan gymryd bod diwygiad yn anhebygol, anochel yw cau drysau. Digwyddodd droeon yn barod, ac fe ddaw yn ei dro atom ni. Ond nid oes angen digaloni. Ar y pryd, dylem lawenhau fod drysau Pendref a dwsinau o gapeli ym mro'r Bedol ar agor. Nid oes pwrpas petruso am bethau sydd y tu hwnt i'n gallu i'w rheoli: digon i bob diwrnod ei drafferth ei hun. Neu yn ôl athroniaeth Tao, a chysyniad "w-we", nid oes pwrpas ymladd yn ormodol yn erbyn bywyd: ceisio deall a dilyn ei lif yw'r doethaf.

Fel Cristion ac anghydfurfiwr, credaf mai'r berthynas bersonnol rhwng Duw a dyn yw sail ffydd. Myfyrio ar y Beibl a neges Crist, a cheisio gweld yn eang drwy ddarllen, gwrandao a thrafod, a meddwl ac ail-feddwl am y cwestiynnau mawr. Ceisio caru cyd-ddyn, rhannu baich a gwên a maddeuant. A cheisio byw bob dydd, er gwaethaf môr ffaeleddau, amheuan a thrafferthion, â llawenydd a gras, a gwneud rhywfaint o wahaniaeth. Wrth gwrs, daw'r wên yn gynt i'r wyneb yng ngwmni'r rhai sy'n cydsynio. Daw cwrdd a thrafod mewn oedfa yn y capel â boddhad, a rhywbeth sbesial yw awyrgylch gwasanaeth ar fore Sul ym Mhendref. Ond mewn gwirionedd, oes angen adeilad arnom i fod yn Gristnogion? Dywedodd Dietrich Bonhoeffer mai drwy ymollwng yn llwyr i weithgareddau bywyd y mae canfod ffydd, ac adnabod Duw. Fore Sul, paham na allwn fod yn Gristnogion da tra'n cefnogi ein plant yn hytrach, ar gae rygbi efallai, a chwrdd i drafod ein ffydd ar nos Lun? Daw cerddoriaeth â llawenydd arbennig i lawer; mae'n rhan annatod o'r traddodiad Cymreig. Ond oes angen canu? Ers cyfnodau clo COVID, cynhaliwyd gwasanaethau Pendref ar-lein heb adeilad na phwlpud nac organ na phiano. Wrth gwrs, rhaid oedd ymgysgu â rhaglenni cyfrifiadurol fel Teams a Zoom, a goroesi ambell anhawster technegol! Bellach cynhelir pob oedfa ar-lein, ag un oedfa "gymysg" misol hefyd yn y capel. Profodd y drefn newydd yn llwyddiant, gan ail-gynnwys aelodau nad oes modd iddynt gyrraedd y capel oherwydd salwch, anawsterau teithio ag ati. Mae'n bosib ymuno ag offeren Gatholig mwy neu lai unrhyw awr, unrhyw ddydd o'r flwyddyn, gan fod cymaint ohonynt o bedwar ban byd i'w cael ar y we! Dychmygwch, mae'r posibiladau'n ddibendraw ond i ni agor ein llygaid, â datblygiadau fel YouVersion a www.bible.com/cy/app yn enghreifftiau gwych. Twyllodrus yw'n perspectif Cymreig: cofiwch mai Cristnogaeth yw crefydd fwyaf y byd, â dros ddau biliwn o Gristnogion yn bresennol.

Yn y tymor canol, synhwyrol fyddai uno'r enwadau Cymraeg, gan ffocysu ar ein ffydd gyffredin, nid dogmâu'r enwadau gwahanol. Rwyn Annibynnwr balch. Teimlaf bod ein dulliau syml o addoli a threfnu'n haddoliad yn rhagori. Ond derbynïaf yn syth y byddai aelod o enwad arall yn dadlau'r un mor ddiffuant am draddodiadau'r enwad hwnnw. Nid chwarae bach bydd uno enwadau, ac nid oes brwdfrydedd drosto hyd y gwelaf i. Hwyrach daw'n bosib ond pan dry'r sefyllfa'n hollol argyfyngus. Chwerwfelys bydd creu eglwys gyd-enwadol yn Rhuthun, ac agor un capel mewn adeilad gwahanol yn y dre, gan gau'r gweddill i gyd. Ond dyna sut mae creu dechreuad newydd, gan barchu'r

holl enwadau, ac eglwysi gwahanol o'r un enwad. Mater sylfaenol yw'n gallu a'n parodwydd i genhadu'n ddiwyll â dulliau cyfoes ymhlith y to ifanc yn arbennig.

Testun gofid arall yw ein bod, yng Nghymru a thrwy'r hen fyd, fel petawn yn troi oddiwyth ffydd. Teimlaf y gwelwn fywyd rhywsut heb ddyfnder. Yn lle rhyfeddu'n agored at wyrth ein bodolaeth, ac ysu am ddeall, cawn ein diddanu gan brysurdeb pethau pob dydd, a'n cyflyrru'n dawel gan Facebook ac Instragram, Amazon a Netflix, a'r cyfryngau traddodiadol. Pwy a wŷyr, hwyrach mai hwn sydd gallaf? GK Chesterton dywedodd fod angylion yn gallu hedfan am eu bod yn cymryd eu hunain yn ysgafn. Ar yr un pryd, teimlaf y gwelasai athronwyr mawr Yr Oleuedigaeth Fox News a'r Daily Mail a phoblyddiaeth wâg Farage, Johnson a Trump fel bygythiad i gyfradd datblygiad y ddynoliaeth. Ond hwyrach, efallai mai rhyw dyrfedd dros dro yw hyn? Rhaid cofio bod dyn yn ifanc yn ei esblygiad. Mor fregus yw'n gwareiddiad. Ystyriwch anaeddfedrwydd ein gwleidyddiaeth, haprwydd ein economi, arwynebolder ein trefniadau yn wyneb y drychineb hinsoddol, y tloedi a'r anhegwch cymdeithasol byd-eang. A gallu un feirysyn bach i achosi anhrefn a miliynau o farwoliaethau. Mewn milflwydd, anodd fydd i ddarllenwyr "Yr e-Bedol Newydd" goelio mor farbaraidd oedd bywyd yr unfed ganrif ar hugain.

Hwyrach bod dyfodol ein ffydd llawer sicrach na dyfodol yr iaith a'r pethau? Dros dro yw ieithoedd, diwylliannau a chenhedloedd lleiafrifol, a rhaid yw trefnu ac ymdrechu er sicrhau eu ffyniant. Yn y gorffennol, cyfrwng gynhwysol oedd y capel i drafod cymhlethdodau ffydd, moeslodeb, hanes a chymdeithas, mynnai ddealltwriaeth, gloywder os nad meistroldeb ieithyddol. Yn 1800, siaradwyd y Gymraeg gan rhyw 80% o'r boblogaeth. Cymaint o wreiddiau'n barddoniaeth, ein llenyddiaeth a'n cerddoriaeth sydd ynglwm wrth ein crefydd. O ble daw'r ymdrochiad, y ffocws a'r deall ieithyddol a diwylliannol bellach, yn enwedig ar ôl dyddiau ysgol?

Yn y tymor hir, daw gobaith drwy sylweddoli mai anochel yw system o gredoau i'r ddynoliaeth. Yr un mor bwysig yddoe, heddiw ac yfory. Yn y bôn, ffydd yw sail pob arsylwad, pob gwyddoniaeth a dealltwriaeth sydd gennym er dehongli a dathlu'n bodolaeth. Cariad, syndod a llawenydd gynyddol at y byd, bywyd a chyd-ddyn, y gwelaf innau drwy lygaid Cristion (a gwyddonydd!), ac sydd yr un mor real i'r Iddew, y Mwslim, yr Hindw, yr hiwmanydd, a phob un arall sy'n myfyrio'n ddiffuant ar ei le yn y greadigaeth. Felly, mae gennym achos pendant i ymlawenhau: wrth i'r ddynoliaeth aeddfedu, felly debyg ein ffydd ... ond i'r asteroidau gadw draw, a'r llosgfynyddoedd a'r feirysau gadw'n dawel, ac ond i ryw hurtyn beidio gwasgu'r botwm a ffrwydro'r wybren yn fflam yn y cyfamser!